**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/02507/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

18 Medi 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Awst ynghylch Deiseb P-05-838 i gefnogi cynlluniau i adeiladu'r Ffordd Liniaru ar hyd y Llwybr Du arfaethedig.

Mae Prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd, ar y cyd â'r Metro, yn ateb cynaliadwy, hirdymor arfaethedig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth de Cymru. Wedi dros flwyddyn, daeth yr ymchwiliad cyhoeddus i'r prosiect hwn i ben ym mis Mawrth. Roedd yr ymchwiliad yn sicrhau bod craffu agored a chadarn, gan archwilwyr annibynnol, i bob agwedd ar y cynnig. Mae pob parti wedi cael dweud eu dweud, o blaid ac yn erbyn y cynllun.

Rydym bellach yn aros am adroddiad yr arolygwr, a fydd, unwaith y daw i law, yn cael ystyriaeth lawn cyn i'r broses o wneud penderfyniad statudol ddod i ben.

Er mwyn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn i Gymru gyfan, rydym eisoes wedi ymrwymo i drafodaeth yn amser y Llywodraeth yn y Cynulliad cyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud gan Weinidogion Cymru ar a ddylid mynd ymlaen i'r cam adeiladu. Rydym yn cydnabod neges y ddeiseb wrth gwrs ac rwyf yn hapus i roi rhagor o wybodaeth am y prosiect i'r pwyllgor deisebau os ydynt yn dymuno hynny. Fodd bynnag hoffwn awgrymu bod prosesau priodol a chynhwysfawr wedi'u sefydlu i lywio a chraffu ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch yr hyn a fyddai heb os yn fuddsoddiad sylweddol yn y seilwaith yng Nghymru.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y prosiect ar ein gwefan drwy ddilyn y ddolen hon: www.busnescymru.llyw.cymru/boss. Os oes gan y pwyllgor unrhyw gwestiynau penodol gadewch imi wybod.

Yn Gywir,
Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.